# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 20 Medi 2011**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(15)

**1. Teyrnged i Lowyr y Gleision**

**13.31**
**2. Datganiad gan y Prif Weinidog: Pwll y Gleision**

**14.04**
**3. Cwestiynau i'r Prif Weinidog**

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2. Cafodd cwestiynau 5 a 10 eu grwpio.

**15.07**
**4. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**15.26**
**5. Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol: Cyngor Sir Penfro**

**6. Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Rhif 2) 2011 - wedi'i ohirio**

**16.13**
**7. Dadl ar Wasanaethau Mamolaeth**

**NDM4796 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried dull Llywodraeth Cymru o wella gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru; ac

2. Yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn credu:

a) y dylai gwasanaethau mamolaeth ledled Cymru gael eu trefnu i ddiwallu anghenion menywod a'u babanod;

b) y dylai popeth posibl gael ei wneud i ddiogelu a gwella iechyd menywod a'u babanod; ac

c) y dylai beichiogrwydd a geni plant fod yn brofiad diogel sy'n gwella ac yn cyfoethogi bywyd.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a’r gwelliant o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn cydnabod cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru: ac

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 54 | 0 | 0 | 54 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

Y byddai llai o gyfleoedd i gael Gwasanaethau Mamolaeth dan arweiniad meddygon ymgynghorol yn arwain at fwy o risg i famau a babanod.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 28 | 55 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y pryder sylweddol ymysg y cyhoedd ynghylch dyfodol gwasanaethau mamolaeth yn y Gogledd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 55 | 0 | 0 | 55 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i warantu darpariaeth gwasanaethau mamolaeth dan arweiniad meddygon ymgynghorol mewn ysbytai cyffredinol dosbarth yn y Gogledd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 28 | 55 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod pwysigrwydd mynediad prydlon at wasanaethau mamolaeth brys mewn ardaloedd gwledig.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 55 | 0 | 0 | 55 |

**Derbyniwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau mamolaeth a ddarperir i gleifion o Gymru gan ysbytai yn Lloegr.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 55 | 0 | 0 | 55 |

**Derbyniwyd gwelliant 6.**

**Gwelliant 7 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal a chadw llefydd ar gyfer hyfforddiant bydwreigiaeth yng Nghymru, er mwyn darparu lefel gynaliadwy o ddatblygiad proffesiynol ar gyfer y rheini sy’n gweithio yn y gwasanaethau mamolaeth yn GIG Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 55 | 0 | 0 | 55 |

**Derbyniwyd gwelliant 7.**

**Gwelliant 8 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi nad yw Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cynllun cyflenwi terfynol ar gyfer gwasanaethau mamolaeth er mwyn ei drafod, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynllun terfynol ar sut y bydd yn gweithredu ei weledigaeth ar gyfer gwasanaethau mamolaeth, yn cynnwys nodau clir a chanlyniadau mesuradwy, er mwyn ei drafod.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 8:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 28 | 55 |

**Gwrthodwyd gwelliant 8.**

**Gwelliant 9 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) Amlinellu'r ffordd y mae'n bwriadu dal Byrddau Iechyd Lleol i gyfrif a'r mesurau y bydd yn eu cymryd i sicrhau bod BILl yn cyrraedd targedau mamolaeth yn y dyfodol; a
b) Gweithio gyda BILl wrth recriwtio a chadw staff meddygol fel bod pob BILl:
(i) bodloni'r safon Birthrate plus ar gyfer trefniadau staffio bydwragedd;
(ii) yn cyflawni'r lefelau staffio a argymhellir gan Goleg Brenhinol y Nyrsys ar gyfer nyrsio gynaecolegol; a
(iii) yn meddu ar wasanaeth mamolaeth sy'n bodloni'r safonau ansawdd cenedlaethol drwy'r amser.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 9:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 28 | 55 |

**Gwrthodwyd gwelliant 9.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

**NDM4796 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru: ac

2. Yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn credu:

a) y dylai gwasanaethau mamolaeth ledled Cymru gael eu trefnu i ddiwallu anghenion menywod a'u babanod;

b) y dylai popeth posibl gael ei wneud i ddiogelu a gwella iechyd menywod a'u babanod; ac

c) y dylai beichiogrwydd a geni plant fod yn brofiad diogel sy'n gwella ac yn cyfoethogi bywyd.

3. Yn cydnabod y pryder sylweddol ymysg y cyhoedd ynghylch dyfodol gwasanaethau mamolaeth yn y Gogledd.

4. Yn cydnabod pwysigrwydd mynediad prydlon at wasanaethau mamolaeth brys mewn ardaloedd gwledig.

5. Yn cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau mamolaeth a ddarperir i gleifion o Gymru gan ysbytai yn Lloegr.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal a chadw llefydd ar gyfer hyfforddiant bydwreigiaeth yng Nghymru, er mwyn darparu lefel gynaliadwy o ddatblygiad proffesiynol ar gyfer y rheini sy'n gweithio yn y gwasanaethau mamolaeth yn GIG Cymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 44 | 11 | 0 | 55 |

17.19
**Cyfnod pleidleisio**

Daeth y cyfarfod i ben am 17.23

**Bydd y Cynulliad yn cwrdd eto yn y Cyfarfod Llawn am 13:30 on Dydd Mercher, 21 Medi 2011**